OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 675 (Cy.98)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011

Gwnaed - - - - *7 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *9 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - - *6 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 5 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol—

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(a) nid yw "yr awdurdodau Cymreig" ("*the Welsh authorities*") yn cynnwys Gweinidogion Cymru nac awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn;

(b) ystyr "strategaeth tlodi plant" ("*child poverty strategy*") yw strategaeth fel a nodir yn adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Cyfnod y strategaeth tlodi plant gyntaf a'r strategaethau tlodi plant sy'n dilyn

3.—(1) Rhaid i'r strategaeth tlodi plant gyntaf fod mewn perthynas â'r cyfnod o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2014.

(2) Rhaid i'r strategaethau sy'n dilyn fod mewn perthynas â'r cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill yn y flwyddyn pan fo cyfnod y strategaeth flaenorol yn dod i ben.

Amseriad cyhoeddi'r strategaeth tlodi plant gyntaf a'r strategaethau tlodi plant sy'n dilyn

4.—(1) Mae'r strategaeth tlodi plant gyntaf i gael ei chyhoeddi ar 31 Mawrth 2012 neu cyn hynny.

(**1**) 2010 mccc 1.